# ADRODDIAD GWERTHUSO

# Gŵyl Fach y Fro 2019



menterbromorgannwg.cymru



# Cynnwys

**Cyflwyniad**

1.1 Hanes yr ŵyl

1.2 Nodau'r ŵyl

1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl

1.4 Partneriaid

1.5 Ariannwyr

1.6 Uchafbwyntiau Gŵyl Fach y Fro 2019

1.7 Marchnata a'r Cyfryngau

**Y Gwerthusiad**

2.1 Nodau'r Gwerthusiad

2.2 Methodoleg

2.3 Canlyniadau a Sylwadau

2.4 Gwerth Economaidd

**Crynodeb a'r Ffordd Ymlaen**

> "ROEDD HI'N WYCH GWELD YR YSGOLION I GYD YN PERFFORMIO - MAE'N RHOI TEIMLAD O FALCHDER AC UNDOD"

> "RHYWBETH HYFRYD A RHAD I NEUD GYDA'R TEULU I GYD. JOIO GWRANDO AR GWAHANOL FANDIAU YN YR IAITH GYMRAEG, AC HYRWYDDO'R IAITH YN Y FRO."

> "AN EXCELLENT EVENT, AND A HUGE ASSET TO WELSH LANGUAGE AND CULTURE IN THE VALE. AS A WELSH LEARNER, I FELT THAT THE FESTIVAL WAS WELCOMING AND INSPIRING – DIOLCH YN FAWR!"

# Cyflwyniad

## 1.1 Hanes yr ŵyl

Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r ŵyl wedi ei lleoli ar Bromenâd Ynys y Barri ac mae hi'n rhan o becyn digwyddiadau Haf y Cyngor.

Yn 2019 y prif nod oedd cynyddu proffil yr ŵyl ymhellach gan ddenu cynulleidfaoedd newydd, a chynnig mwy o weithgareddau ac arlwy cerddorol i greu naws gŵyl hwyliog gydag amserlen apelgar a chynhwysfawr sy'n apelio at bobl o bob oed.

## 1.2 Nodau'r ŵyl

Nodau'r ŵyl yw

1. Codi proffil y Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion flasu ychydig o'r iaith a chelfyddydau Cymraeg yn y Fro.
2. Cyflwyno syniadau a materion Cymraeg mewn amgylchedd hwyliog a phleserus.
3. Creu cyfleoedd i'r cyhoedd gael hyder yn y Gymraeg a chael mynediad at yr iaith.
4. Targedu gwahanol gynulleidfaoedd ar wahân, a sicrhau bod y gweithgareddau yn hygyrch i bob grŵp. Dylai oedolion weld yr ŵyl yn ddigon soffistigedig iddyn nhw, tra'n hwyl i blant hefyd.
5. Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth a'u gwerth o'r Gymraeg.
6. Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.
7. Cynyddu a gwella gwasanaethau i ddinasyddion Cymraeg.
8. Cael ei hystyried yn ŵyl o ansawdd uchel.

## 1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl

Mynychodd yn agos at 6,000 o bobl Gŵyl Fach y Fro yn 2019. Mae hyn i'w gymharu gyda 4,000 yn 2018, ac er gwaetha'r tywydd garw eto eleni, mae'r ymateb ac adborth a gafwyd yn ardderchog.

## 1.4 Partneriaid

Mae Gŵyl Fach y Fro yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol ac mae'n darparu platfform i'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod cymaint o'r partneriaid yn cyd-weithio a chyfrannu tuag at y digwyddiad. Yn cymryd rhan yn yr ŵyl eleni, roedd:

**Urdd Gobaith Cymru; Dysgu Cymraeg y Fro; Adran Ddigwyddiadau Cyngor Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Cymraeg i Blant; Criw Celf; Coleg Caerdydd a'r Fro; Inc – Creative/ Creadigol; Pedal Emporium; Cyfweithfa Gelf Caerdydd; a Llenyddiaeth Cymru.**

> **"BRILLIANT OPPORTUNITY FOR ME TO SHOW MY CHILD THE WELSH SPEAKING COMMUNITY IN ENCOURAGEMENT FOR HER TO USE HER WELSH LEARNT AT SCHOOL."**

Yn ogystal â'r uchod rydym yn derbyn cefnogaeth gref pob blwyddyn gan yr wyth ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn y Fro. Yn ogystal â'u brwdfrydedd i gymryd rhan a pherfformio pob blwyddyn, mae'r ysgolion yn gyswllt hollbwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr ŵyl ymysg plant, pobl ifanc a theuluoedd y Fro.

Rydym wedi derbyn ymateb bositif iawn gan y partneriaid, gyda phawb a holwyd yn datgan eu bod am gymryd rhan flwyddyn nesaf eto.

## 1.5 Ariannwyr

Gyda nifer o ddatblygiadau newydd eleni, yn naturiol fe wnaeth gostau Gŵyl Fach y Fro 2019 hefyd gynyddu. Llwyddodd Gŵyl Fach y Fro 2019 i ddenu cyfanswm o £24,290 mewn grantiau a nawdd, o'i gymharu â £21,708 y llynedd, cynnydd o 12%. Cafodd yr ŵyl ei chefnogi eleni gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg , Cyngor Celfyddydau Cymru a Mentrau Iaith Cymru.

Rydym hefyd yn derbyn incwm oddi wrth stondinwyr ac arlwywyr yr ŵyl.

## 1.6 Uchafbwyntiau Gŵyl Fach y Fro 2019

Roeddem yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl y llynedd a'i datblygu ymhellach yn 2019. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Cynnydd yn y nifer o weithgareddau, gyda 52 o berfformiadau a gweithdai unigol yn rhan o'r ŵyl.
- Am y tro cyntaf eleni sefydlwyd ail lwyfan berfformio, sef y llwyfan gymunedol – Glanfa Gwynfor. Cafwyd ymateb dda, gyda'r llwyfan yn llwyddo i ddenu grwpiau cymunedol, Meithrinfeydd, a chynulleidfaoedd newydd i'r Ŵyl.
- Rhaglen lawn o weithdai creadigol gan Criw Celf; Cardiff Arts Collective; Michael Goode; Haf Weighton; Coleg Caerdydd a'r Fro; a Llenyddiaeth Cymru.
- Perfformiadau stryd gan griw talentog 'Kitsch N Sync' – ar y thema lan y môr. Roedd tair ohonynt wedi gwisgo fel morwyr, ac yn crwydro ardal yr ŵyl a'r creigiau ar y traeth yn rhyngweithio a thynnu lluniau gyda chynulleidfa'r ŵyl. Fe wnaeth yr elfennau theatr stryd newydd yma weithio'n dda yn denu llawer o sylw trwy eu perfformiadau egnïol ac unigryw.
- Mae'n bwysig i ni ein bod yn parhau i gydweithio gyda busnesau a chynhyrchwyr lleol, ac yn

**“MAE HI MOR BRAF CLYWED CYMAINT O GYMRAEG YN CAEL EI SIARAD AR YR YNYS. LOT O FWRLWM GYDA PHLANT YN MWYNHAU DWY LWYFAN GYDAG AMSERLEN LAWN- CYMAINT YN DIGWYDD! WEDI DWLI GWELD YR YSGOLION A WEDI DWLI GWELD Y CYLCHOEDD MEITHRIN YN CYMRYD RHAN – DIOLCH!”**



arlwyo’r ŵyl eleni roedd: Grazing Shed; The Teifi Toastie; Puckin’ Poutine; Bar Vantage-Point-Events; a Handlebar Barista – Brew Bar.

- Roedd y stondinau crefft yn ychwanegiad poblogaidd i’r ŵyl yn 2016, ac roeddwn yn falch i allu cynyddu unwaith eto ar y nifer o stondinau eleni. Dyma restr o stondinwyr Gŵyl Fach y Fro 2019: Beti Babs; Michael Goode; Haf Weighton; Cant a Mil Vintage; Sparclo (glitter); Gemwaith Defana; Sgrym; Haden Fach – Celf Jamie; Cymraeg i Blant; Mudiad Meithrin; a Dysgu Cymraeg y Fro.
- Yn ogystal â staff y Fenter, roedd gyda ni 14 o wirfoddolwyr i helpu ar y diwrnod. Er nad yw gwirfoddolwyr Gŵyl Fach y Fro yn stiwardiaid swyddogol, maent yn gyswllt hollbwysig o ran cyfeirio pobl a chodi ymwybyddiaeth bellach trwy rannu gwybodaeth am yr ŵyl gyda’r cyhoedd ar hyd y promenâd.
- Llwyddwyd i ddenu mwy eto o ymwelwyr i fwynhau’r ŵyl ar Ynys y Barri, ac wrth ddadansoddi’r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn yr holiadur gwerthuso, rydym yn amcangyfrif bod hyd at draean o fynychwyr yr ŵyl yn byw y tu allan i Fro Morgannwg.

### 1.7 Marchnata a’r Cyfryngau

Cafodd yr ŵyl dipyn o ymateb ar-lein a sylw yn y cyfryngau.

- Cafwyd tipyn o sylw yn y cyfryngau: cyfweliadau ar Heno, sgwrs ar Radio Wales, sylw ar amryw o raglenni Radio Cymru ac eitemau yn y wasg leol gan gynnwys Y Selar, Glamorgan GEM, Golwg 360 a’r Barry & District News.
- Gofynnwyd yn yr holiadur gwerthuso sut roedd pobl wedi dod i glywed am yr ŵyl, a’r atebion mwyaf poblogaidd oedd Taflenni neu Bosteri (40%), Facebook (36%) a Gwefan y Fenter (24%), sy’n amlygu pwysigrwydd cynnal systemau marchnata a phresenoldeb ar-lein cryf.
- Mae’r ŵyl hefyd yn elwa o gael ei hyrwyddo yn rhan o raglen digwyddiadau haf y Cyngor, sy’n cyrraedd cynulleidfaoedd mawr tu hwnt i gysylltiadau arferol y Fenter.
- Cyrrhaeddwyd cynulleidfaoedd ehangach trwy hyrwyddo tu hwnt i Fro Morgannwg trwy bapurau newydd rhanbarthol e.e. The Western Mail; a hefyd trwy ddosbarthu posteri Jack Arts yng Nghaerdydd.
- Cynhyrchwyd baneri i hysbysebu’r Ŵyl, oedd i’w gweld ar draws Ynys y Bari yn yr wythnosau yn arwain at y digwyddiad.

**“LLEOLIAD BENDIGEDIG. GRET CAEL TREULIO AMSER GYDA FFRINDIAU, DIGON O LE I’R PLANT CHWARAE, AC AMRYWIAETH DDA O WEITHGAREDDAU. MAE HI’N ŴYL HYFRYD IAWN, WEDI’I THREFNU’N DDA – DIOLCH!”**



# Gwerthusiad

## 2.1 Nodau'r Gwerthusiad

Nôd y gwerthusiad ydy casglu gwybodaeth am yr agweddau canlynol o'r ŵyl:

1. Wnaeth yr ŵyl gwrdd â'i hamcanion?
2. Beth ydy demograffeg cynulleidfa'r ŵyl?
3. Beth oedd argraffiadau a phrofiadau mynychwyr o'r ŵyl?
4. Sut byddai modd gwella ar y digwyddiad?
5. Beth oedd effaith yr ŵyl ar y cyfranogwyr?
6. Beth oedd effaith economaidd yr ŵyl?

## 2.2 Methodoleg

Casglwyd data gan dîm o staff y Fenter a gwirfoddolwyr yn ystod y diwrnod. Casglodd y tîm gwerthuso sampl o'r gynulleidfa oedd yn mynychu'r ŵyl er mwyn casglu ymatebion a sylwadau.

Crëwyd hefyd holiadur ar-lein a ddosbarthwyd i'r cyhoedd trwy nifer o rwydweithiau ar-lein; tudalennau Facebook a Twitter y Fenter, a thrwy ein system e-chlysur sy'n cyrraedd dros 1,400 o drigolion lleol. Danfonwyd holiadur at holl stondinwyr, partneriaid ac arlwywyr yr ŵyl er mwyn casglu adborth wrthyn nhw hefyd.

Casglwyd 87 o ymatebion trwy'r dulliau yma.

## 2.3 Canlyniadau a Sylwadau

Yn ôl yr holiadur, roedd 5% o fynychwyr yr ŵyl dan 25 oed, 40% rhwng 25-40 oed, 47% rhwng 40-60 oed a 8% dros 60 oed. Rhaid cofio wrth gwrs nad yw plant yn cymryd rhan yn yr arolwg hwn, ac yn arsylwadol rydym yn amcangyfrif bod 1/3 o'r mynychwyr yn blant.

O'r ymatebion a gasglwyd, atebodd 28% eu bod wedi teithio i'r ŵyl o du allan i Fro Morgannwg, sy'n dangos bod Gŵyl Fach y Fro wedi ennill ei lle erbyn hyn ymysg calendr gwych o ddigwyddiadau haf y rhanbarth ehangach.

Mae canlyniadau'r holiadur yn dangos bod Gŵyl Fach y Fro yn llwyddo i apelio at y di-Gymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg, gyda 65% yn ateb eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl. O'r 8% oedd yn ddi-Gymraeg, a'r 27% sy'n dysgu, atebodd 100% eu bod yn teimlo bod yr ŵyl yn gynhwysol ac yn groesawgar i bobl sydd ddim yn siarad yr iaith yn rhugl.

Atebodd 100% eu bod yn teimlo bod Gŵyl Fach y Fro yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg yn y Fro.

Mae'r lleoliad unigryw hwn ar Bromenâd Ynys y Barri yn amlwg yn plesio – gyda 95% yn teimlo bod y lleoliad yn addas ar gyfer yr ŵyl. Roedd yn heriol i ni fel trefnwyr ar brydiau eleni oherwydd y gwynt cryf a'r glaw, oedd yn golygu ein bod ni wedi gorfod atal rhai o'r perfformiadau ar y prif lwyfan, ond mae'n braf clywed na wnaeth hynny effeithio ar brofiad y mynychwyr o gwbwl. Mae gennym ni ganllawiau a chynlluniau penodol mewn lle er mwyn ymdopi â phob math o dywydd, yn enwedig mewn lleoliad agored fel hwn ar lan y môr, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r cwmni rheoli 2Can Productions er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn llyfn ac yn ddiogel.

Gofynnwyd yn yr holiadur hefyd beth roedd pobl wedi ei fwynhau orau am Gŵyl Fach y Fro eleni. Ymysg agweddau mwyaf poblogaidd yr ŵyl yn ôl yr ymatebion oedd y line-up, safon ac amrywiaeth y gerddoriaeth byw; y llwyfan gymunedol newydd – Glanfa Gwynfor, a'r perfformiadau gan blant yr ysgolion cynradd lleol yno; adloniant theatrig; y cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn modd naturiol; gweithgareddau i blant; a'r awyrgylch hwyliog a chroesawgar; a'r ffaith bod y cwbl ar gael i'w fwynhau am ddim.

Atebodd 100% y bydden nhw'n debygol o ddod i Gŵyl Fach y Fro eto.



**"WEDI CAEL DIWRNOD HYFRYD! Y CYFEILLGARWCH, Y CYMREICTOD A'R LLEOLIAD – GŴYL FACH BERFFAITH!"**

## 2.4 Effaith Economaidd

Er mwyn asesu effaith economaidd Gŵyl Fach y Fro 2019, gofynnwyd yn yr holiadur i fynychwyr nodi faint roedden nhw wedi ei wario mewn gwahanol feysydd. Dyma'r canlyniadau:

| Maes | Gwariant ar Gyfartaledd |
|---|---|
| Bwyd a Diod | £15.87 |
| Stondinau Crefft | £4.47 |
| Trafnidiaeth i'r ŵyl | £3.39 |
| Busnesau cyfagos (bwytai, caffis, tafarndai, siopau…) | £4.67 |
| Cyfanswm gwariant y pen | £28.40 |

Wrth ddadansoddi'r ffigyrau uchod a lluosi'r gwariant y pen gyda 2/3 o'r gynulleidfa (gan gadw mewn golwg bod traean o fynychwyr yr ŵyl yn blant), gallwn amcangyfrif bod Gŵyl Fach y Fro 2019 wedi cyfrannu £113,600 at yr economi leol.

"GŴYL SY'N ADDAS I'R TEULU CYFAN GAN GYNNWYS PLANT IFANC IAWN – RHYWBETH YNO AT DDANT PAWB. DIOLCH YN FAWR IAWN."

# Crynodeb a'r Ffordd Ymlaen

Rydym fel trefnwyr yn falch o weld yr ŵyl yn datblygu a'n parhau i fynd o nerth i nerth, ac yn sicr Gŵyl Fach y Fro erbyn hyn yw un o uchafbwyntiau gwyliau'r haf i drigolion Bro Morgannwg a thu hwnt. Er gwaethaf y tywydd gwael yn hanner cyntaf y diwrnod, llwyddwyd i ddenu yn agos at 6,000 o bobl, sef cynnydd o 50% ar niferoedd mynychwyr yr Ŵyl yn 2018, ac mae'r adborth rydym wedi ei dderbyn yn bositif iawn unwaith eto.

Erbyn hyn rydym yn denu £24,290 o gyllid i ariannu Gŵyl Fach y Fro, cynnydd o 12% ar incwm llynedd.

Er mwyn parhau i dyfu a datblygu Gŵyl Fach y Fro, ymateb i argymhellion ein cwsmeriaid, a sicrhau ei bod yn ŵyl sy'n gynhwysol a'n apelio at gynulleidfa ehangach, dyma bydd ein blaenoriaethau wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer y dyfodol:

- Parhau i gydweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg er mwyn cadw'r ŵyl yn y lleoliad arbennig ac unigryw hwn ar Ynys y Barri.
- Cadw'r ŵyl am ddim gan sicrhau incwm sylweddol er mwyn gallu parhau â hyn. Erbyn blwyddyn nesaf byddwn yn edrych ar ffynonellau newydd o gyllid er mwyn gallu parhau i ddatblygu elfennau newydd, a denu nawdd preifat er mwyn sicrhau incwm ychwanegol a meithrin cysylltiadau newydd gyda chwmniau a busnesau lleol.
- Cadw ansawdd uchel y stondinau bwyd a diod gyda digon o opsiynau amrywiol.
- Cydweithio gyda S4C er mwyn darparu sioe neu sesiynau Cyw fydd yn apelio at fabanod a phlant ifanc.
- Mwy o berfformiadau ac elfennau theatr stryd ar hyd y promenâd.
- Parhau i ddatblygu'r llwyfan gymunedol newydd, Glanfa Gwynfor, a denu cynulleidfaoedd newydd i'r Ŵyl trwyddi.
- Mwy byth o faneri a deunydd hyrwyddo ar hyd y promenâd, yn y meysydd parcio a'r strydoedd cyfagos er mwyn codi ymwybyddiaeth pellach o'r digwyddiad ymysg pobl lleol ac ymwelwyr i'r traeth, yn yr wythnosau yn arwain at yr Ŵyl.
- Denu cynulleidfaoedd ehangach i'r Ŵyl trwy hyrwyddo'n rhanbarthol, a marchnata ehangach.



"A FANTASTIC LOCAL EVENT WITH A LOVELY RELAXED FEEL TO IT. LOCATION IS SUPERB, AND FOR THE LAST FEW YEARS WE AS A FAMILY HAVE REALLY ENJOYED IT. DA IAWN PAWB - DIOLCH YN FAWR!"